

LLOYD, DAVID (1635 - 1692), bywgraffydd

Enw: David Lloyd
Dyddiad geni: 1635
Dyddiad marw: 1692
Rhiant: Hugh Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bywgraffydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: John James Jones

Ganwyd 28 Medi, 1635, ym Mhant Mawr, Trawsfynydd, Sir Feirionnydd, mab Hugh Lloyd. Addysgwyd ef yn ysgol rydd Rhuthyn; aeth i Goleg Merton, Rhydychen, fel ' servitor ' yn 1653, a graddiodd yn B.A. o Goleg Oriol, Ionawr 1656-7. Gwnaed ef yn rheithor lbstone, swydd Rhydychen, yn 1658, a derbyniodd y radd o M.A. yn 1659. Yr un flwyddyn ymddeolodd o'i reithoraeth ac aeth i Lundain i wasnaethu fel darlennydd yn y Charterhouse o dan y Dr. Timothy Thurscross. Yn 1663 carcharwyd ef am chwe mis am gyhoeddi llyfr o'r teitl *The Countess of Bridgewater's Ghost*. Ar ôl hynny gwnaed ef yn gaplan i'r esgob Barrow, Llanelwy, yr hwn a'i dyrchafodd i amryw swyddi, yn cynnwys canoniaeth. Yn 1671 daeth yn ficer Abergele, sir Ddinbych, ond y flwyddyn ddilynol newidiodd y fywoliaeth hon am ficeriaeth Lloneurgain (Northop), Sir y Fflint, lle'r oedd hefyd yn feistr yr ysgol rad, a'r un flwyddyn gwnaed ef yn rheithor Llanddulas, sir Ddinbych. Bu farw 16 Chwefror 1691-2, a chladdwyd yn Nhrwysfynydd. Cyhoeddwyd 10 o'i weithiau, ac y mae y rhain gan mwyaf yn ymwneud â hanes ei amserau o safbwynt un a gymerai ran plaid y brenin. Yn eu plith y mae'r llyfr *Εἰκὼν Βασιλική*, 1660, yn yr hwn yr ymgeisia Lloyd wneud dros Siarl II yr hyn a wnaeth llyfr arall o'r un teitl, a briodolir weithiau i John Gauden, dros Siarl I. Ond andwyir gwaith hanesyddol Lloyd gan ormodded o ymbleidiaeth.

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r ffynonellau a enwir yno

H. Blackwell, **NLW MS 9265A: A Dictionary of Welsh Biography**, a'r ffynonellau a enwir yno

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: **72730471**

Wikidata: **Q16859745**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, J. J., (1953). LLOYD, DAVID (1635 - 1692), bywgraffydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-DAV-1635>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government